# *Nodiadau'r Grŵp Trawsbleidiol ar Nyrsio a Bydwreigiaeth 10 Rhagfyr 2014*

**Yn bresennol:** Julie Morgan AC, Kirsty Williams AC, Darren Millar AC, Elin Jones AC, Tina Donnelly, Cyfarwyddwr Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru, Lisa Turnbull, Cynghorydd Polisi a Materion Cyhoeddus, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru a Liam Anstey, Cynorthwyydd Polisi a Materion Cyhoeddus, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru (Cofnodion)

**Ymddiheuriadau: Dim**

---

**1. Cafwyd croeso gan Julie Morgan AC, y Cadeirydd Dros Dro**

Croesawodd Julie Morgan AC bawb i'r cyfarfod. Eglurodd fod Rebecca Evans AC, cadeirydd blaenorol y Grŵp Trawsbleidiol wedi rhoi'r gorau i'r gadeiryddiaeth pan gafodd ei phenodi yn Ddirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd yn Llywodraeth Cymru.

**2. Ethol Cadeirydd ac Ysgrifennydd**

Etholwyd Julie Morgan AC yn gadeirydd ac etholwyd Tina Donnelly yn ysgrifennydd ar ran Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru.

**3. Cofnodion y cyfarfod diwethaf - 4 Mawrth 2014**

Nododd y cadeirydd fod y cyfarfod blaenorol wedi trafod cynllunio gweithlu, a **chytunwyd ar gofnodion y cyfarfod hwnnw.**

**4. Trafod y Blaengynllun Gwaith**

**Cytunodd y Grŵp Trawsbleidiol y dylid cynnal cyfarfodydd y grŵp gyda'r hwyr yn y dyfodol i sicrhau presenoldeb Aelodau. Cytunodd y Grŵp y dylid parhau i wahodd siaradwyr arbenigol i roi eu barn ar y materion dan sylw.**

Clywodd y grŵp gan Tina Donnelly, Cyfarwyddwr Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru, am y meysydd sy'n achosi pryder arwyddocaol i'r Coleg Nyrsio Brenhinol ledled y Deyrnas Unedig. Eglurodd fod Iechyd Meddwl yn un o'r pryderon, a bod Dr Peter Carter, Prif Weithredwr ac Ysgrifennydd Cyffredinol y Coleg Nyrsio Brenhinol, wedi cael ei benodi i Gomisiwn ar Iechyd Meddwl, a sefydlwyd yn ddiweddar. **Cytunodd y grŵp y bydd yn cynnal cyfarfod yn y dyfodol i edrych ar Wasanaethau Iechyd Meddwl a'r sefyllfa yng Nghymru, ac i wahodd Dr Peter Carter i'r cyfarfod hwnnw.**

DRAFT

Dywedodd Tina Donnelly wrth y grŵp hefyd fod cynllunio’r gweithlu yn y gymuned yn fater pryder arall i’r Coleg Brenhinol. Dywedodd Elin Jones AC ei bod hi’n awyddus i gysylltu â Therapyddion Galwedigaethol a Ffisiotherapyddion i drafod Staffio Diogel a **chytunodd y Grŵp Trawsbleidiol i gynnal cyfarfod ynghylch y tîm cymunedol cyfan yn y dyfodol.**

**Cytunodd y grŵp y bydd cyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol yn trafod y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru). Cytunodd y Grŵp i wahodd David Rees AC, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ynghyd â Chlerc y Pwyllgor ac Arolygwyr o Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, i’r cyfarfod hwnnw er mwyn clywed rhagor am y Bil.**

**Cytunodd y Grŵp ar y flaenraglen waith ganlynol:**

**Y cyfarfod nesaf:** Y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru)
**Cyfarfod yr haf:** Gwasanaethau iechyd meddwl
**Cyfarfod yr hydref / cyfarfod cyffredinol blynyddol:** Cynllunio’r gweithlu yn y gymuned.

**Cytunwyd i gynnal cyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol ym mis Mawrth/mis Ebrill, o bosibl ar 17/18 Mawrth.**

DRAFT